



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

## Rhaglen Delweddu Genedlaethol National Imaging Programme

### Cylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol – Chwarter 4

#### **Croeso i'r trydydd rhifyn o Gylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol!**

Bu chwarter olaf 2022-23 yn fisoedd prysur iawn i'r tîm! Rydyn ni wedi croesawu 4 aelod tîm newydd (gan ddyblu mewn maint!), wedi cwblhau ein cyfres o ymweliadau ymgysylltu, wedi gweithio ein ffordd drwy galendr llawn dop o gyfarfodydd a digwyddiadau, ac rydyn ni'n awr wrthi'n paratoi i fod yn rhan o Weithrediaeth y GIG o 1<sup>af</sup> Ebrill 2023 ymlaen!

Rydyn ni wedi dal i wneud cynnydd da yn ffrydiau gwaith ein rhaglen, a chafwyd datblygiadau cyffrous iawn yn Rhaglen Trawsnewid y Gweithlu Delweddu ac Addysg a'r Prosiect Offer Delweddu a Blaenoriaethau Cyfalaf Cenedlaethol – fel y gwelir isod.

Gobeithio gewch chi flas ar ein cylchlythyr olaf yn 2022-23! Os hoffech chi gael eich ychwanegu i'r rhestr ddisbarthu, neu os oes gennych ymholiadau cyffredinol, anfonwch e-bost ar [NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk)

### National Imaging Programme Newsletter - Quarter 4

#### **Welcome to fourth edition of the National Imaging Programme Newsletter!**

The final quarter of 2022-23 has been a very busy few months for the team! We have welcomed 4 new team members (doubling in size!), completed our series of engagement visits, manoeuvred our way through a bumper calendar of meetings and events, and are currently gearing ourselves up to become part of the NHS Executive from 1<sup>st</sup> April 2023!

We have continued to make lots of progress in our programme workstreams, with some really exciting developments in the Imaging Workforce and Education Transformation Programme and National Imaging Equipment and Capital Priorities Project – highlighted below.

We hope you enjoy our final newsletter of 2022-23! If you would like to be added to the circulation list, or have general enquiries, please email [NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk)

### Diweddariadau ar y Ffrydiau Gwaith

### Workstream Updates

**Gweithlu ac Addysg**

**Workforce and Education**

#### Cyflawniadau Allweddol Ch4

- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer lansiad swyddogol 'Creu Model Gweithlu Delweddu GIG Cymru. Strategaeth ar gyfer Datblygu Model i'r Gweithlu Radioleg yng Nghymru'. Bydd Tîm y Rhaglen yn cyflwyno'r Strategaeth yn nigwyddiad Gweithlu Diagnostig AaGIC ar 29<sup>ain</sup> Mawrth 2023, a chaiff ei dosbarthu'n eang wedi hynny. Bydd y Strategaeth ar gael ar ein gwefan o ddechrau Ebrill ymlaen. Byddwn hefyd yn rhoi sylw arbennig i'r Strategaeth yn ein cylchlythyr nesaf.
- Mae Cynllun cynhwysfawr wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y Rhaglen er mwyn gweithredu'r argymhellion yn y 'Strategaeth ar gyfer Datblygu Model i'r Gweithlu Radioleg yng Nghymru'. Mae'r Grŵp Trawsnewid y Gweithlu Delweddu ac Addysg (IWETG) yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r trefniadau ar gyfer rheoli a gweithredu'r cynllun hwn. Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl ac aelodaeth y grŵp hwn a threfnwyd y cyfarfod cyntaf ar gyfer dechrau'r chwarter nesaf.
- Mae'r prosiect cyntaf yn y cynllun gwaith hwn wedi'i sefydlu, gyda'r ffocws ar sut allwn ni ddatblygu'r Gweithlu Cefnogi Delweddu Diagnostig. Cynhaliwyd gweithdy cwmpasu cychwynnol gyda rhanddeiliaid o Fyrddau Iechyd GIG Cymru, Bron Brawf Cymru, AaGIC a Chymdeithas y Radiograffwyr ar 28<sup>ain</sup> Chwefror 2023.
- Cynhaliwyd Adolygiad Codio ESR ar gyfer y gweithlu Delweddu Diagnostig gyda Phenaethiaid Proffesiynol Radiograffeg ar 15<sup>fed</sup> Chwefror 2023. Mae dogfen ganllaw ddiwygiedig wrthi'n cael ei datblygu gyda Thîm

#### Q4 Key Achievements

- Work is currently underway to prepare for the official launch of 'Building the NHS Wales Imaging Workforce Model. Strategy for Developing a Radiology Workforce Model for Wales'. The Programme Team will be presenting the Strategy at the HEIW Diagnostic Workforce event on 29<sup>th</sup> March 2023, with widespread distribution to follow. The Strategy will be available on our website from early April. There will also be a special feature on the Strategy within our next newsletter.
- A comprehensive Programme Plan has been developed to take forward the recommendations within the 'Strategy for Developing a Radiology Workforce Model for Wales'. The Imaging Workforce and Education Transformation Group (IWETG) is being established to oversee the management and execution of this plan. Terms of Reference and membership of this group has been agreed with the first meeting scheduled for early next quarter.
- The first project within this workplan has been established, looking at how we can develop the Diagnostic Imaging Support Workforce. An initial scoping workshop with stakeholders from NHS Wales Health Boards, Breast Test Wales, HEIW and the Society of Radiographers was held on 28<sup>th</sup> February 2023.
- ESR Coding Review for Diagnostic Imaging workforce took place with Radiography Professional Heads on 15<sup>th</sup> February 2023. A revised guidance document is currently being developed with the ESR Coding Review Project Team. The aim of this work will be to ensure that all new and existing Imaging

Prosiect yr Adolygiad Codio ESR. Nod y gwaith hwn fydd sicrhau bod yr holl Weithlu Delweddu yng Nghymru, yn weithwyr newydd a chyfredol, yn cael eu codio'n gyson ac yn gywir yn y system ESR.

- Ymunodd yr Uwch Swyddog Cefnogi Prosiectau newydd, Clarissa Wong, â'r tîm Delweddu ar 9fed Ionawr a bydd yn darparu cefnogaeth un pwrpas i'r ffrwd waith gweithlu ac addysg.
- Ymunodd Lisa Oyler â'r tîm ddiwedd Chwefror fel Rheolwr Prosiect. Bydd Lisa yn arwain ar y prosiect i ddatblygu'r Gweithlu Cefnogi Delweddu Diagnostig.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Gweithlu ac Addysg, cysylltwch â [Harriet.Ryland@wales.nhs.uk](mailto:Harriet.Ryland@wales.nhs.uk)

Workforce in Wales are consistently and correctly coded in the ESR system.

- New Senior Project Support Officer, Clarissa Wong, joined the Imaging team on 9th January and will be providing dedicated support to the workforce and education workstream.
- Lisa Oyler joined the team at the end of February as Project Manager. Lisa will be leading on the project to develop the Diagnostic Imaging Support Workforce.

For further information on the Workforce and Education Workstream, please contact [Harriet.Ryland@wales.nhs.uk](mailto:Harriet.Ryland@wales.nhs.uk)

## Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion

### Cyflawniadau Allweddol Ch3

- Cynhaliwyd adolygiad o'r sefyllfa a'r statws presennol ar draws Cymru o safbwynt ennill achrediad drwy'r Safonau Ansawdd ar gyfer Delweddu (QSI).
- Mae'r achos busnes dros weithredu QSI ar draws Cymru, gan gynnwys cyflwyno staff at y pwrpas gyda phob Bwrdd Iechyd, yn cael ei ddatblygu ar y cyd ag Archus ar hyn o bryd.
- Ymunodd Emily Jarmann â'r tîm ym mis Ionawr, fel Uwch Reolwr Prosiect i'r Ffrwd Waith Ansawdd.
- Ymunodd James Triscott â'r tîm ym mis Rheolwr, fel Rheolwr Rhaglen i'r Ffrwd Waith Ansawdd.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Ansawdd, Diogelwch a

## Quality, Safety and User Experience

### Q4 Key Achievements

- A review of the current position and status across Wales with respect to gaining accreditation via the Quality Standards for Imaging has been undertaken.
- The business case for QSI implementation across Wales, including the introduction of dedicated staff with each Health Board is currently being developed in conjunction with Archus.
- Emily Jarmann joined the team in January, as Senior Project Manager for the Quality Workstream.
- James Triscott joined the team in March, as Programme Manager for the Quality Workstream.

For further information on the Quality, Safety and user Experience

## Cynllunio Adnoddau Strategol

### Cyflawniadau Allweddol Ch3

#### Prosiect Blaenoriaethau Cyfalaf ac Offer

- Yn dilyn y Broses o Werthuso a Blaenoriaethu Gwasanaethau (Cam 2) ym Mwrdd Strategaeth y Rhaglen Delweddu Genedlaethol (NIPSB) ym mis Tachwedd 2022, a chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2022 (drwy Nick Wood, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru), cyflwynwyd papur i'r Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol ym mis Chwefror 2023 i'w nodi, ac ni ddaeth dim sylwadau pellach i law.
- Cyhoeddwyd hysbysiad 'mynd yn fyw' ffurfiol i'r holl Fyrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau i roi gwybod iddynt y caiff y broses hon ei gweithredu o 1<sup>af</sup> Ebrill 2023 ymlaen.
- Mae Hyrwyddwyr Cyfarpar wedi adolygu'r cyfarpar ar y Gofrestr Genedlaethol o Asedau Cyfarpar Delweddu a chaiff y data ei ddefnyddio fel llinell sylfaen ar 31<sup>ain</sup> Mawrth 2023.
- Mae Trefn Weithredu Safonol wedi cael ei drafftio i gyd-fynd â'r ffurflenni gwerthuso, i sicrhau bod gan yr hyrwyddwyr cyfarpar arweiniad clir ar gyfer cydlynu trafodaethau a chymeradwyaethau ar lefel leol.
- Ymunodd Uwch Swyddog Cefnogi Prosiectau newydd, Clarissa Wong, â'r tîm ar 9fed Ionawr a bydd yn darparu cefnogaeth ychwanegol i'r prosiect hwn wrth iddo symud i'r cam gweithredu.

## Strategic Resource Planning

### Q4 Key Achievements

#### Equipment and Capital Priorities Project

- Following ratification of the Service Evaluation and Prioritisation Process (Phase 2) at the National Imaging Programme Strategy Board (NIPSB) in November 2022, and Welsh Government endorsement in December 2022 (via Nick Wood, Deputy Chief Executive NHS Wales), a paper was taken to National Diagnostics Board in February 2023 for noting, with no further comments received.
- A formal 'go live' notification has been issued to all Health Boards and Trusts to let them know this process will be implemented from 1<sup>st</sup> April 2023.
- Equipment Champions have reviewed equipment on the National Imaging Equipment Asset Register and the data will be baselined on 31<sup>st</sup> March 2023 in preparation for implementation of the process.
- A Standard Operating Procedure has been drafted to accompany the evaluation forms, ensuring equipment champions have clear guidance to co-ordinate discussion and approvals at a local level.
- New Senior Project Support Officer, Clarissa Wong, joined the team on 9th January and will be providing additional support to this project as it moves into the implementation phase.
- Terms of Reference for the national review function have



- Cafodd Cylch Gorchwyl ar gyfer y swyddogaeth adolygu cenedlaethol newydd ei ddrafftio a chaiff Panel Adolygu NIECP ei sefydlu yn ystod chwarter cyntaf 2023/24.

I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Cynllunio Adnoddau Strategol, cysylltwch â [Rachel.Howells6@wales.nhs.uk](mailto:Rachel.Howells6@wales.nhs.uk)

been drafted and the NIECP Review Panel will be established in the first quarter of 2023/24.

For further information on the Strategic Resource Planning Workstream, please contact [Rachel.Howells6@wales.nhs.uk](mailto:Rachel.Howells6@wales.nhs.uk)

### **Gwybodeg, Gwybodaeth a Deallusrwydd Busnes**

Caiff y ffrwd waith hon ei chyflwyno drwy Raglen Gaffael y System Gwybodeg Radioleg

### **Informatics, Information and Business Intelligence**

Delivery of this work stream is via the Radiology Informatics System Procurement (RISP) Programme.

## **Diwrnod Radiograffeg y Byd / Welcome to the Team**



Ymunodd Emily â'r Rhaglen Delweddu Genedlaethol fel Uwch Reolwr Prosiectau ym mis Ionawr 2023, yn cefnogi'r Ffrwd Waith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Defnyddwyr Gwasanaethau yn bennaf. Mae Emily wedi gweithio yn GIG Cymru ers dros chwe mlynedd mewn amrywiol Brosiectau a Rhaglenni, gan gynnwys fel Rheolwr Prosiectau ar y Rhaglen RISP am ddwy flynedd, a bu'n rhan o'r gwaith o sefydlu'r Academi Ddelweddu Genedlaethol ym Mhen-coed. Mae



Ymunodd Clarissa â thîm y Rhaglen Delweddu Genedlaethol fel Uwch Swyddog Cefnogi Prosiectau ym mis Ionawr 2023. Bydd yn rhoi cefnogaeth ar gyfer cyflwyno prosiectau/ rhaglenni sy'n gysylltiedig â'r ffrydiau gwaith Cynllunio Adnoddau Strategol a Gweithlu ac Addysg. Cyn hyn, bu'n gweithio mewn swydd debyg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ôl iddi symud i'r Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf 2022. Dechreuodd ei siwrnai yn y diwydiant gofal iechyd

ganddi gymwysterau PRINCE2 a PMQ y Gymdeithas Rheoli Prosiectau, ac mae'n mwynhau llywodraethu a rheoli risgiau. Mae Emily yn edrych ymlaen i weithio gyda'r tîm a dal i feithrin ei gwybodaeth a rhwydweithio ym maes delweddu a radioleg.

Emily joined the National Imaging Programme as a Senior Project Manager in January 2023, primarily supporting the Quality, Safety, and Service User Experience Workstream. Emily has worked within NHS Wales for over six years in various Projects and Programmes, including as a Project Manager on the RISP Programme for two years, and being involved in the establishment of the National Imaging Academy in Pencoed. She holds PRINCE2 and Association of Project Management PMQ qualifications, and enjoys risk management and governance. Emily is looking forward to working with the team and continuing to build on her knowledge and network within imaging and radiology.



Ymunodd James (Jim) â'r Rhaglen Delweddu Genedlaethol fel Rheolwr Rhaglen ym mis Mawrth 2023, gan weithio ar ffrwd waith Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Rhaglen Delweddu Genedlaethol. Mae gan

dros ddegawd yn ôl. Yn ôl yn Hong Kong, bu Clarissa yn gweithio ochr yn ochr â thimau amlddisgyblaethol a gweithwyr meddygol proffesiynol mewn ysbyty preifat ar weinyddiaeth yr ysbyty ac amrywiol brosiectau ar draws yr ysbyty. Mae wrth ei bodd ei bod wedi dechrau pennod newydd yng Nghymru ac yn ddiolchgar ei bod yn gallu parhau â'i gyrfa yn y sector gofal iechyd yn ogystal â gwneud cyfraniad i GIG Cymru.

Clarissa joined the National Imaging Programme team as Senior Project Support Officer in January 2023. She will provide support to the delivery of projects/programmes relating to Workforce and Education and Strategic Resource Planning workstreams. Prior to this, she took up a similar position in Public Health Wales shortly after her relocation to the UK in July 2022. Her journey in healthcare industry started over a decade ago. Back in Hong Kong, Clarissa had been working alongside multidisciplinary teams and medical professionals at a private hospital on hospital administration and various hospital-wide projects. She is thrilled to have started a new chapter in Wales and grateful for being able to continue her career in healthcare sector as well as to make contributions to NHS Wales.



Ymunodd Lisa â'r Rhaglen Delweddu Genedlaethol fel Rheolwr Prosiectau ym mis Chwefror 2023, gan weithio'n bennaf ar brosiectau i gefnogi Gweithlu ac Addysg. Mae Lisa yn meddu ar bron 20 mlynedd

Jim bron 25 mlynedd o brofiad mewn gwasanaethau Radioleg, ar ôl gweithio'n glinigol fel Radiograffydd mewn Byrddau Iechyd ar draws De Cymru, gan ddatblygu i fod yn Uwch Radiograffydd Adrodd Ymarfer yn Aneurin Bevan a Bae Abertawe. Cyn dechrau'r rôl hon, mae wedi gweithio ym maes rheoli fel radiograffydd arolygol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac fel Radiograffydd Arweiniol y Safle ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Y tu allan i'r gwaith mae'n dad priod i ddau o blant, mae'n helpu i hyfforddi a rheoli tîm rygbi ei fab a hefyd yn helpu â gweithgareddau chwaraeon eraill; mae'n mwynhau cerddoriaeth ac yn ceisio mynd i gyngherddau a gwyliau bob cyfle mae'n gael.

James (Jim) joined the National Imaging Programme as a Programme Manager in March 2023, working on the National Imaging Programme Quality and Patient Safety workstream. Jim has nearly 25 years' experience within Radiology services, having worked clinically as a Radiographer in Health Boards across South Wales, progressing to an Advanced Practitioner Reporting Radiographer in Aneurin Bevan and Swansea Bay. Prior to commencing this role, he has worked within management as superintendent radiographer in Cwm Taf University Health Board and Site Lead Radiographer in Swansea Bay University Health Board.

Outside of work he is a married father of two children, he helps to coach and manage his son's rugby team as well as helping with other sport activities and enjoys music and tries to attend as many concerts and festivals as he can.

o brofiad clinigol rheng flaen ar ôl bod yn gweithio fel Radiograffydd Adrodd yng Nghaerdydd. Yn yr amser hwn, mae wedi rheoli amryfal brosiectau sy'n ymwneud â delweddu ar draws testunau megis strôc, gweinyddiaeth a gwasanaethau clercaidd, a gwella sgiliau Uwch Radiograffwyr a Radiograffwyr Maes Estynedig. Meddai "Rwyf wrth fy modd fy mod wedi cael fy mhenodi i'r rôl hon, gan gyfuno fy angerdd dros reoli prosiectau gyda'r wybodaeth a'r sgiliau'r wyf wedi'u meithrin yn ystod fy ngyrfa glinigol. Mae'n amser cyffrous iawn i wasanaethau delweddu yng Nghymru, ac rwy'n edrych ymlaen i weithio ochr yn ochr â'm cydweithwyr ar draws Cymru i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau delweddu.

Lisa joined the National Imaging Programme as a Project Manager in February 2023, working primarily on projects to support Workforce and Education. Lisa has nearly 20 years frontline clinical experience having worked as a Reporting Radiographer based in Cardiff. During this time, she has managed multiple projects relating to imaging across topics such as stroke, administration and clerical services, and maximising the skills of Advanced and Extended Scope Radiographers. She says "I am delighted to have been appointed to this role, combining my passion for project management with the knowledge and skills I have achieved during my clinical career. It is a very exciting time for imaging services in Wales, and I am looking forward to working alongside colleagues across Wales to achieve the vision for imaging services.

## Ymweliadau Ymgysylltu'r Rhaglen Delweddu Genedlaethol / National Imaging Programme Engagement Visits





Hoffai'r tîm ddiolch o galon i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, BIP Cwm Taf Morgannwg, BIP Aneurin Bevan a PIB Caerdydd a'r Fro oll am ein croesawu ni yn Chwarter 4, gan ddirwyn i ben gyfres ymweliadau ymgysylltu 2022-23. Aethom i:

11<sup>eg</sup> Ionawr – Canolfan Ganser Felindre

26<sup>ain</sup> Ionawr – Ysbyty Brenhinol Morgannwg

16<sup>eg</sup> Chwefror – Ysbyty'r Drenewydd

20<sup>fed</sup> Chwefror – Ysbyty Athrofaol y Faenor

6<sup>ed</sup> a 7<sup>fed</sup> Mawrth – Ysbyty Glan Clwyd

27<sup>ain</sup> Mawrth – Ysbyty Athrofaol Cymru

Bu'r ymweliadau hyn yn gwbl gwerth chweil a gwerthfawr i'r tîm, a gyda lwc, fe fyddant o fudd i bawb.

Roedd yn wirioneddol braf cyfarfod cynifer o'n rhanddeiliaid wyneb yn wyneb a chael sgwrs! Cawsom hefyd ein tywys o amgylch yr Adrannau Radioleg, gan roi i'r rhai yn y tîm nad oes ganddynt gefndir delweddu clinigol, gyfle gwerthfawr iawn i ddysgu. Rydyn ni'n

The team would like to say a huge thank you to Velindre University NHS Trust, Cwm Taf Morgannwg UHB, Powys Teaching HB, Aneurin Bevan UHB, Betsi Cadwaladr UHB and Cardiff and Vale UHB, who all hosted us Quarter 4, concluding our series of 2022-23 engagement visits. We went to:

11<sup>th</sup> January – Velindre Cancer Centre

26<sup>th</sup> January – Royal Glamorgan Hospital

16<sup>th</sup> February – Newtown Hospital

20<sup>th</sup> February – The Grange University Hospital

6<sup>th</sup> & 7<sup>th</sup> March – Glan Clwyd Hospital

27<sup>th</sup> March – University Hospital of Wales

These visits have been extremely worthwhile and valuable for the team, and we hope beneficial to all. It was really lovely to meet so many of our stakeholders in person and have a catch up! We were also given a tour of the Radiology Departments, a valuable learning opportunity for those in the team who don't have a clinical imaging background. We appreciate the time given out of the busy operational



gwerthfawrogi iddynt roi o'u hamser ar ddiwrnod gwaith prysur i'n helpu i gael dealltwriaeth o'r gwasanaeth, gan ein galluogi i gael blas ar sut mae'r adran yn rhedeg. Fe wnaethom hefyd drafod heriau penodol ym mhob sefydliad, clywsom am rai o'r cynlluniau lleol gwych...ac mae gennyn ni'n awr enwau cyswllt ardderchog i gydweithredu â nhw!

Yn ychwanegol at yr ymweliadau safle hyn, rydyn ni wedi ymuno â galwadau addysg neu gyd-archwiliadau'r Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaeth i roi cyflwyniad i'r rhaglen ac i ymgysylltu â chydweithwyr Delweddu ehangach ar draws yr adran. Rydyn ni'n hapus i ddod i sgwrsio gyda chi, rhoi diweddariad ar ein rhaglen waith neu ddim ond i gael sgwrs gyffredinol ar unrhyw adeg! Cysylltwch â ni drwy [NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk) i drefnu.

day to help us gain an understanding of the service, enabling us to have a taster of how the department runs. We also discussed specific challenges within each organisation, heard about some fantastic local initiatives...and now have some excellent contacts to collaborate with!

In addition to the site visits, we have also joined Health Board and Trust joint audit or education calls to present an introduction to the programme and engage with wider Imaging colleagues across the department. We are happy to come and chat to you, update on our programme of work or just have a general catch up at any time! Please contact us via [NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk) to arrange.

## Newyddion am y Rhaglen

**Uchafbwyntiau allweddol eraill o Chwarter 4:**

- Fe wnaeth Amanda Evans, Arweinydd Rhaglen y Portffolio Delweddu Cenedlaethol, gynrychioli'r rhaglen yng Nghynhadledd Flynyddol y Gymdeithas Radioleg Ewropeaidd (ESR) yn Fienna ym mis Chwefror, lle mynychodd darlithoedd ar ddatblygiadau newydd ym maes delweddu a chreu cysylltiadau newydd defnyddiol!
- Rhoddodd Amanda Evans gyflwyniad yng Nghynhadledd Gwyddor Gofal Iechyd Cymru yng Nghaerdydd ym mis Mawrth a bu Richard Holford, Radiograffydd Adrodd Arweiniol yn BIP Caerdydd a'r Fro, yn cynrychioli'r Proffesiwn Delweddu yn ystod trafodaeth banel ar Uwch

## Programme News

**Other key highlights from Quarter 4:**

- Amanda Evans, National Imaging Portfolio Programme Lead, represented the programme at the European Society of Radiology (ESR) Annual Conference in Vienna in February, where she attended lectures on new advancements in imaging and gained some useful new contacts!
- Amanda Evans presented at the Healthcare Science (HCS) Cymru Conference in Cardiff in March and Richard Holford, Lead Reporting Radiographer at Cardiff & Vales UHB, represented the Imaging Profession during a panel discussion on Advanced Practice.
- Harriet Ryland presented

Ymarfer.

- Cyflwynodd Harriet Ryland drosolwg ar y 'Strategaeth ar gyfer Datblygu Model i'r Gweithlu Radioleg yng Nghymru' yn nigwyddiad Gweithlu Diagnostig Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).
- Mae Gwella ac Adfer Gofal Wedi'i Drefnu GIG Cymru wedi hysbysebu am Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer swydd Diagnosteg, y dyddiad cau oedd 23<sup>ain</sup> Mawrth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithredu Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Trawsnewid ac Adfer Diagnosteg yng Nghymru, gan weithio ag Arweinydd Rheoli'r rhaglen, rhaglenni Diagnosteg unigol sef Endosgopeg, Genomeg, Gwyddorau Gofal Iechyd, Delweddu a Phatholeg a Byrddau Iechyd i gyflwyno a gweithredu.

Efallai y sylwch chi ar rai gwahaniaethau yn y brandio a'r wybodaeth ar gyfer cysylltu wrth inni symud dan strwythur Gweithrediaeth y GIG ym mis Ebrill. Edrychwn ymlaen i rannu rhagor o wybodaeth am hyn a'n cynlluniau ar gyfer 2023/24 gyda chi yn y rhifyn nesaf!

an overview of the 'Strategy for Developing a Radiology Workforce Model for Wales' at the Health Education and Improvement Wales (HEIW) Diagnostic Workforce Event.

- NHS Wales Planned Care Improvement & Recovery have advertised a National Clinical Lead for Diagnostics position, closing date was 23<sup>rd</sup> March. The successful candidate will lead the implementation of the Welsh Government's Diagnostics Recovery and Transformation Strategy for Wales, working with the programme's Managerial Lead, individual Diagnostics programmes of Endoscopy, Genomics, Health Care Sciences, Imaging and Pathology and Health Boards in terms of delivery and implementation.

You may notice some differences in branding and contact information as we move under the NHS Executive structure in April. We look forward to sharing more information on this and our plans for 2023/24 with you in the next edition!

## Gwneud eich rhan!

Dilynwch gyfrif Twitter y Cydweithrediad [@CydGIGCymru](https://twitter.com/CydGIGCymru)

Gwefan: [Rhaglen Delweddu Genedlaethol - Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru](#)

Os oes arnoch angen cysylltu ag aelod o dîm y Rhaglen Delweddu Genedlaethol, e-bostiwch:

## Get involved!

Follow the Collaborative Twitter account [@NHSWalesCollab](https://twitter.com/NHSWalesCollab)

Website: [National Imaging Programme - NHS Wales Health Collaborative](#)

If you need to contact a member of the National Imaging Programme team, please email:

[NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk)

[NHSWHC.National.Imaging.P  
rogramme@wales.nhs.uk](mailto:NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk)

**Rhifyn nesaf – Mehefin  
2023!**

**Next edition – June  
2023!**

NHS Wales Health Collaborative | 1st Floor, River House, Ynys Bridge Court, Gwaelod y Garth,  
Cardiff, CF15 9SS United Kingdom

[Unsubscribe helen.james13@wales.nhs.uk](#)

[Update Profile](#) | [Constant Contact Data Notice](#)

Sent by [nhswhc.commsteam@communications.wales.nhs.uk](mailto:nhswhc.commsteam@communications.wales.nhs.uk) powered by



Try email marketing for free today!